Gwasanaeth Cyflogadwyedd
Employability Service

PRIFYSGOL BANGOR UNIVERSITY

# Adnabod a Datblygu eich Sgiliau Cyflogaeth

A ydych yn adnabod eich hun cystal ag ydych yn meddwl?  Yn aml, nid ydym yn rhoi clod i'n hunain am y sgiliau a'r rhinweddau sydd gennym eisoes neu rydym yn meddwl nad ydynt yn berthnasol i yrfa i raddedigion. Mae'r daflen hon yn dangos gwir werth yr hyn rydych yn gallu ei wneud yn barod, a sut i feithrin sgiliau nad oes gennych eto.

Mae'r daflen yma yn edrych ar:

1 Golwg mwy manwl ar gyflogadwyedd
2 Swyddogaeth sgiliau a rhinweddau cyflogadwyedd
3 Sut i adnabod y sgiliau sydd gennych (sefydlu eich set sgiliau)
4 Sut i ddysgu/datblygu sgiliau newydd
5 Disgrifio eich sgiliau mewn ceisiadau am swydd, cyfweliadau a chyflwyniadau

## 1 Golwg mwy manwl ar gyflogadwyedd

Mae cyflogadwyedd yn derm sy'n disgrifio eich gwerth personol yn y gwaith, p'un a ydych yn gyflogedig, yn ymgynghorydd, yn academydd, yn weithiwr llawrydd neu'n gyflogwr. Mae eich cyflogadwyedd yn unigryw i chi ac mae'n cynnwys llawer o agweddau:

- eich **moeseg a'ch gwerthoedd** - mae'r rhain yn gysylltiedig â sefydliadau, crefydd, moeseg cyffredinol y gwaith  a safonau personol ymhlith eraill. I lawer o raddedigion, dyma'r ffactorau pwysicaf wrth ddewis gyrfa.
- eich **gwybodaeth** - yr hyn rydych wedi ei astudio yn academaidd, ond hefyd yr hyn rydych wedi ei ddysgu trwy eich diddordebau a'ch profiadau personol, gwybodaeth am fyd gwaith a'r byd o'ch cwmpas.
- eich **deallusrwydd (au)** - eich deallusrwydd personol - a ydych yn rhywun sy'n ymarferol, yn meddwl yn greadigol, yn meddwl yn rhesymegol, yn ieithydd - pa mor gyflym fyddwch yn dysgu pethau?
- eich **personoliaeth a'ch rhinweddau personol** - a ydych yn ystyried eich hun fel rhywun mewnblyg neu allblyg, neu'n gyfuniad o'r ddau? A ydych yn credu y gallwch newid eich rhinweddau personol neu a ydynt yn sefydlog? Efallai bod gennych dueddiad at rai nodweddion, ond yn aml gellir eu datblygu i gynnwys rhai eraill.

- eich **agweddau** - a oes gennych agwedd gadarnhaol 'parod i wneud'? Beth yw eich agwedd at eich astudiaethau? A ydych yn weithgar /yn realistig / yn gynhwysol / yn hyblyg / yn chwilfrydig / yn uchelgeisiol?
- eich **cysylltiadau / rhwydwaith** - pwy rydych yn ei adnabod a sut - cydnabod eu gwerth a'u potensial.
- eich **hunanymwybyddiaeth** - pa mor dda ydych yn adnabod eich hun a'r hyn rydych ei eisiau? Mae bron yn amhosib dweud wrth rywun arall sut un ydych chi mewn cais neu gyfweliad, os nad ydych yn ymwybodol o'ch cryfderau.

Nid yw cyflogadwyedd yn benodol i raddedigion yn unig - mae angen i bobl o bob oed ac ym mhob cyfnod fod yn hyblyg yn y gwaith, gan newid swydd a throsglwyddo eu sgiliau i sectorau gwaith eraill. Mae buddsoddi yn eich cyflogadwyedd yn broses gydol oes, er mwyn parhau i fod yn gyflogadwy, gan adolygu boddhad yn y gwaith a gwerth personol yn y gwaith.

## 2 Swyddogaeth sgiliau a rhinweddau cyflogadwyedd

Mae sgiliau a rhinweddau yn rhan fawr o'ch cyflogadwyedd, ac maent yn rhywbeth sydd o bwys arbennig i gyflogwyr. Yng nghyd-destun cyflogadwyedd, mae'r hyn y gallwch ei WNEUD yr un mor hanfodol â'r hyn rydych yn ei WYBOD. Gallwch fod yr unigolyn mwyaf gwybodus am bwnc arbennig, ond os nad oes gennych y sgiliau i ddefnyddio eich gwybodaeth yn effeithiol, yna ni fyddwch mor gyflogadwy â rhywun sy'n gallu ei defnyddio'n effeithiol.

**Meddyliwch am unrhyw athrawon gwael a fu'n eich dysgu, ac athrawon da - pa briodweddau a/neu sgiliau oedd gan yr athrawon da nad oedd gan yr athrawon gwael?**

Mae gan gyflogwyr ddiddordeb mawr mewn sgiliau. Mae recriwtio fel arfer yn seiliedig ar nodi cymwyseddau allweddol a pharu ymgeiswyr â'r cymwyseddau hynny. Gofynnir i chi ysgrifennu am eich sgiliau mewn cais a rhoi tystiolaeth ohonynt, ond hefyd gofynnir i chi ddisgrifio eich sgiliau mewn cyfweliadau. Bydd rhai cyflogwyr hefyd yn eich asesu trwy brofion seicometrig a chanolfannau asesu, naill ai ar-lein neu wyneb yn wyneb.

Y newyddion da yw y gellir cymhwyso sgil a ddatblygwyd mewn un cyd-destun mewn cyd-destun arall yn ddidrafferth - gelwir y sgiliau hyn yn sgiliau trosglwyddadwy. Er enghraifft, os ydych wedi bod yn aelod o dîm chwaraeon, gallech gymhwyso eich profiad o'r maes chwaraeon i'r gwaith, p'un a yw hynny fel aelod da o'r tîm neu fel arweinydd tîm. Bydd cyflogwyr yn edrych yn fanwl ar eich CV, eich cais a'ch perfformiad yn y cyfweliad i chwilio am dystiolaeth o'ch sgiliau a'ch rhinweddau.

Tra rydych yn astudio, rydych yn buddsoddi llawer o'ch amser a'ch ymdrechion yn cynyddu eich gwybodaeth a'ch arbenigedd - ni ddylech anwybyddu'r hyn rydych yn dysgu ei wneud. I ddarganfod pa sgiliau y gallech fod wedi eu datblygu wrth astudio pwnc penodol, gallwch edrych yma: Prospects - What can I do with my Degree? Dewiswch bwnc eich gradd neu un sy'n agos ato, a sgroliwch i lawr i'r adran sgiliau ar gyfer eich CV.

## 3 Sut i nodi'r sgiliau sydd gennych

Mae meddwl pa swydd yr hoffech ei gwneud yn y dyfodol ychydig fel cychwyn o'r llinell derfyn! Ond gall roi syniad da i chi o beth sy'n apelio atoch, felly gofynnwch i chi eich hun pa rai o'r rhain: ai'r amgylchedd gwaith (e.e. yr awyr agored), defnyddio gwybodaeth pwnc eich gradd (e.e. hanes), gweithio gyda grŵp penodol (e.e. plant ) sy'n eich denu chi at y swydd, neu a yw'n gyfuniad o'r pethau hyn? Efallai y bydd rhywun sydd eisiau gweithio gyda phlant yn ystyried gwneud hynny trwy amrywiol sectorau, fel gofal iechyd, elusen, gwaith cymdeithasol ac addysg. Yn y modd hwn, gallwch gyfuno'r sgiliau rydych eisiau eu defnyddio gyda'r sector swyddi y gallai fod gennych wybodaeth amdano neu gallwch ddatblygu sgiliau galwedigaethol i weithio mewn maes penodol (athro, gweithiwr cymdeithasol). Os byddwch yn dechrau ar y lefel hon o chwilio ac ymchwil, bydd yn haws o lawer i chi nodi'r wybodaeth a'r set sgiliau sy'n ofynnol a meddwl a allwch ddechrau datblygu rhai o'r sgiliau a'r profiad sydd eu hangen ar gyfer y sector hwnnw.

Efallai y byddai'n ddefnyddiol i chi sefydlu llinell sylfaen o'r sgiliau sydd gennych eisoes i fapio ar yr hyn y gallai fod ei angen arnoch chi. Mae archwilio eich sgiliau yn rhywbeth y dylech ei wneud yn rheolaidd trwy gydol eich bywyd gwaith, er mwyn sicrhau bod gennych yr 'offer/cynhwysion' cywir ar gyfer y swydd rydych yn ei gwneud neu ar gyfer gofynion y farchnad swyddi yn y dyfodol. Mae archwilio sgiliau yn rhan safonol o arferion recriwtio, cynlluniau graddedigion, adolygiadau prawf a datblygu staff, adolygiadau perfformiad a dadansoddiadau anghenion hyfforddi ymhlith eraill.

**Gellwch gwblhau *Hunanasesiad Sgiliau a Chyflogadwyedd**

Gwasanaeth Cyflogadwyedd
Employability Service

PRIFYSGOL BANGOR UNIVERSITY

**Sgiliau Terminoleg a Thystiolaeth**

Mae’n bwysig dod yn gyfarwydd ag iaith sgiliau. A ydych yn gwybod pa sgiliau a rhinweddau y mae cyflogwyr yn eu disgwyl gan fyfyrwyr graddedig, a pha rai y mae galw mawr amdanynt?

Ydych chi'n gallu darparu **tystiolaeth** o'ch sgiliau? Meddyliwch am eich gweithgareddau a'ch profiadau a gwnewch nodiadau isod:

| **Sgil ar gyfer cyflogadwyedd graddedigion** | **Tystiolaeth o gwrs/addysg** | **Tystiolaeth o brofiad gwaith/interniaeth** | **Tystiolaeth o ddiddordebau a gweithgareddau** |
|---|---|---|---|
| Ymwybyddiaeth Fasnachol | | | |
| Cyfathrebu | | | |
| Gwaith Tîm | | | |
| Arweinyddiaeth | | | |
| Gallu gweithio dan bwysau | | | |
| Meddwl yn greadigol | | | |
| Datrys problemau | | | |
| Perswâd / Negodi | | | |
| Blaenoriaethu / Cynllunio | | | |

## 4 Sut i ddysgu/datblygu sgiliau

Er mwyn datblygu a gwella sgiliau, mae'n rhaid gwneud dau beth: gweithredu ac adfyfyrio.

Arsylwi / dynwared: gallwch ddatblygu sgiliau trwy arsylwi eraill; po fwyaf o bobl neu sefyllfaoedd byddwch yn ymwneud â hwy, y mwyaf o bethau y gallwch eu harsylwi. Os gallwch adnabod sgiliau sydd gan bobl eraill - er enghraifft rhywun sy'n ymddangos fel pe bai ganddo sgiliau trafod rhagorol, gallwch efallai ddefnyddio'r ieithwedd maent yn ei defnyddio, iaith eu corff neu sut maent yn trin sefyllfa. Byddwch hyd yn oed yn dysgu gan bobl sy'n perfformio'n wael neu'n gwneud camgymeriadau.

Cymryd cyfarwyddyd / gwylio arddangosiad: weithiau bydd sefyllfa'n cynnwys rhywun yn rhoi cyfarwyddyd neu gyfarwyddiadau - naill ai'n ffurfiol trwy raglen hyfforddi, neu'n anffurfiol, fel aelod mwy profiadol o'r tîm yn dangos beth yw beth i chi (e.e. mewn swydd ran-amser neu gymdeithas).

Ymarfer / profi a methu: po fwyaf o bethau byddwch yn cymryd rhan ynddynt, y mwyaf o gyfleoedd y cewch i ymarfer. Efallai na fyddwch yn gwneud pethau'n iawn y tro cyntaf, ond byddwch yn dysgu trwy wneud camgymeriadau, a thrwy hynny yn ennill profiad ac yn magu hyder.

Gwthio eich hun i wneud rhywbeth llai cyfarwydd: ni fyddwch bob amser yn teimlo eich bod eisiau rhoi cynnig ar bethau newydd, ysgwyddo mwy o gyfrifoldeb neu roi eich hun mewn sefyllfa newydd. Dim ond chi fydd yn gwybod beth yw'r cydbwysedd iawn rhwng cynnydd a'r hyn rydych yn gyffyrddus yn ei wneud, ond os ydych yn teimlo'n ofnus ond wedi eich cyffroi ar yr un pryd, mae'n debyg eich bod yn gwneud y peth iawn!

Maeadfyfyrio yn rhan allweddol o ddysgu a datblygu, ond anaml y byddwn yn gwneud amser i wneud hyn yn ein bywydau bob dydd. Mae'n beth naturiol i ni feddwl am y swydd nesaf, yr aseiniad nesaf, y cyfarfod nesaf. Os cymerwch yr amser i adfyfyrio, gallwch roi hwb gwirioneddol i ddatblygiad eich sgiliau a'ch cyflogadwyedd.
Petaech yn cymryd yr amser i adfyfyrio'n iawn ar hyn, pa sgiliau a rhinweddau ydych wedi eu defnyddio a'u datblygu?

Gwasanaeth Cyflogadwyedd
Employability Service

PRIFYSGOL BANGOR UNIVERSITY

**Adfyfyrio a Dadansoddi - enghraifft**

Rydych yn cymryd rhan mewn dadl fel rhan o aseiniad, yn ymchwilio i ffeithiau ac yn cyflwyno dadleuon a manteision ac anfanteision.  Ar ôl y profiad, rydych chi'n dweud wrth eich ffrindiau beth ddysgoch chi am drefn y drafodaeth.  Rydych chi'n dweud ei fod yn agoriad llygad ac ychydig yn straen.

**Er mwyn nodi'r sgiliau a ddatblygwyd trwy'r profiad hwnnw - adfyfyriwch a dadansoddwch:**

Sut oedd eich sgiliau casglu gwybodaeth? A wnaethoch chi lwyddo i gyflwyno eich dadleuon yn glir ac yn ddigynnwrf? Sut oedd y broses drafod? A oeddech yn teimlo'n hyderus yn dweud eich barn? A gawsoch eich herio, ac os felly, a oeddech yn gallu rhoi eich barn gyda phendantrwydd? A wnaethoch aros yn ddigynnwrf trwy gydol y broses? Beth am ddylanwadu ar benderfyniadau pobl eraill a chyflwyno dadl dda? A fyddech chi'n gwneud rhywbeth yn wahanol?

Dyma'r sgiliau y gellir eu defnyddio / datblygu o bosib yn y senario hwn:

| | | | |
|---|---|---|---|
| gwerthuso | gwaith tîm | cyd-drafod | deallusrwydd emosiynol |
| gwneud penderfyniadau | dylanwadu | datrys gwrthdaro | adfyfyrio |
| dadansoddi beirniadol | dadl | gwrando | goddef straen |

Mae ymarfer adfyfyriol yn gofyn ichi ystyried sut rydych yn ***teimlo*** am wahanol brofiadau, yn ogystal â'r hyn a ddigwyddodd a pha gamau a gymerwyd gennych. Mae hyn yn eich helpu i nodi pa agweddau ar brofiad a oedd yn ddifyr, yn hawdd ac yn heriol yn eich barn chi. Efallai mai'r rhain yw'r meysydd lle gallai fod angen profiad a/neu hyfforddiant pellach arnoch.

Cewch ddysgu mwy am ymarfer adfyfyriol, ac adfyfyrio ar eich profiadau yn y gweithgareddau yma:

***Cyflwyniad i Ymarfer Adfyfyriol**

***Ymarfer Adfyfyriol**

## 5 Mynegi eich sgiliau mewn ceisiadau am swydd, cyfweliadau a chyflwyniadau

Mae angen i chi feddwl sut mae eich sgiliau, eich profiadau a'ch cymwysterau yn bodloni'r meini prawf mewn hysbyseb swydd yn ystod pob cam o'r broses ymgeisio. Gallai hyn fod trwy CV, llythyr eglurhaol, ffurflen gais, cyfweliad a chyflwyniad - ac efallai pob un o'r uchod!

Mae cyflogwyr yn chwilio am dystiolaeth o'ch sgiliau trosglwyddadwy o amrywiaeth o brofiadau ac mae'n rhaid i chi ymchwilio cyn nodi beth yw'r sgiliau a'r cymwyseddau perthnasol ar gyfer y swydd. Gallwch wneud hyn trwy edrych ar y wybodaeth a ddarperir gyda'r hysbyseb swydd ond nid yw'r wybodeth hon bob amser yn gyflawn ac, os byddwch yn gwneud cais ar hap, ni fydd ar gael o gwbl.

Er mwyn dod o hyd i'r wybodaeth hon, bydd rhaid i chi fynd i sawl gwefan i chwilio am y wybodaeth, fel Prospects, Targetjobs - ewch i adran gyngor y sector gyrfaoedd) a gwefan broffesiynol ar gyfer y maes gwaith hwnnw (fel Cymdeithas Seicolegol Prydain neu yrfaoedd y GIG) lle maent yn darparu disgrifiadau o swyddi penodol. Gwelwch restr yma o sgiliau sy'n benodol i swydd, a gallwch seilio eich cais a thargedu eich CV yn unol â hynny. Efallai'n wir y cewch gyfweliad yn seiliedig ar gymhwysedd, pan gofynnir ichi roi enghreifftiau o 'amser pan oeddech yn gweithio fel aelod o dîm' neu'n 'gorfod datrys problem gymhleth'.

Ewch i'n gweithdai wyneb i wyneb neu'n gweithdai ar-lein neu darllenwch ein taflenni ar ysgrifennu ceisiadau a mynd i gyfweliadau, i gael rhagor o wybodaeth ynglŷn â sut i ymateb i gwestiynau am gymhwysedd yn llawn, gan ddefnyddio'r dechneg STAR efallai, os ydych yn hoffi'r syniad o ddefnyddio model i'ch helpu chi.

Dyma enghraifft o roi tystiolaeth o'ch sgiliau ar CV neu ffurflen gais mewn trefn gronolegol:

*Dyddiad* *Sefydliad* *Swydd*

- *Ymdrin yn uniongyrchol ag ymholiadau cwsmeriaid ar y ffôn, rhoi cyngor ar gynhyrchion, trefnu cyfarfodydd â chynghorwyr a chofnodi data.*

Gwasanaeth Cyflogadwyedd
Employability Service

PRIFYSGOL BANGOR UNIVERSITY

Pan fyddwch yn ysgrifennu neu'n siarad am eich sgiliau mewn cais, CV neu gyfweliad sy'n seiliedig ar sgiliau, dylech roi sawl enghraifft o ddatblygu a defnyddio'r sgil (ymwybyddiaeth fasnachol yn yr enghraifft hon):

- *Bûm yn darparu ac yn dehongli gwybodaeth ariannol ar gyfer fy nghyflogwr yn ystod fy interniaeth yn…*
- *Tanysgrifio i Marketing Week a'i ddarllen yn gyson, er mwyn cael y wybodaeth ddiweddaraf am y sector.*
- *Wedi datblygu trwy gymryd rhan yn yr her Byddwch Fentrus ...*

Cofiwch sicrhau eich bod yn defnyddio geiriau sy'n tynnu sylw'r cyflogwr at eich sgiliau a lefel eich cyfrifoldeb trwy ddefnyddio geiriau fel 'yn gyfrifol am ...' a 'phrofiadol mewn ...', yn ogystal â brawddegu uniongyrchol.

**Adnoddau**

Mae yna lawer o adnoddau yn y ***Hwb Cyflogadwyedd** i'ch helpu chi i asesu'ch sgiliau eich hun, a datblygu sgiliau newydd y mae gennych chi ddiddordeb ynddynt.

Fel myfyriwr ym Mhrifysgol Bangor gallwch fewngofnodi i gyfrif **Graduates First** unigryw, lle mae gennych fynediad llawn at ystod eang o'r offer hyn, i'ch helpu i archwilio ac asesu:

- sut mae'ch personoliaeth yn gweddu ag 'arddull gwaith'
- faint o risgiau ydych chi'n fodlon eu cymryd
- pa mor dda ydych chi am wneud penderfyniadau
- eich gallu a'ch dull o ddatrys problemau
- pa fath o reolwr y gallech chi fod
- pa mor dda ydych chi am drin rhifau
- pa mor resymegol ydych chi

Mae'r adnoddau hyn nid yn unig yn helpu gyda adnabod eich sgiliau, ond byddwch hefyd yn ymgyfarwyddo ag arferion recriwtio graddedigion ac yn gwella'ch perfformiad ar yr un pryd!

Gwasanaeth Cyflogadwyedd
Employability Service

PRIFYSGOL BANGOR UNIVERSITY

Mewngofnodwch gyda'r enw defnyddiwr a'ch cyfrinair fel myfyriwr i roi cychwyn arni!

Mae llawer o adnoddau ar yr *Hwb Cyflogadwyedd i'ch helpu i asesu eich set sgiliau eich hun, a datblygu sgiliau newydd a sgiliau sy'n dod i'r amlwg y mae gennych ddiddordeb ynddynt.

Edrychwch ar yr adnoddau allanol hyn i gael mwy o wybodaeth:

Targetjobs - The top 10 skills that'll get you a job when you graduate

UCAS – What are employers looking for?

Prospects – What skills do employers want?

***Mynediad myfyrwyr yn unig***

Medi 2022